

ADDYSG GYMRAEG

Y GORAU O DDAU FYD

WELSH MEDIUM EDUCATION

THE BEST OF BOTH WORLDS

Mwy o wybodaeth
TU MEWN!

Find out more
INSIDE!



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Ariennir gan
Funded by
9Taith



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam



**Oeddech chi'n
gwybod?**

Did you know?

**Mae 77% o
ddisgyblion sy'n cael
addysg Gymraeg yn
Wrecsam yn dod o
gartrefi di-Gymraeg.**

**77% of pupils in
Welsh medium
education in
Wrexham come from
non-Welsh speaking
homes.**



Mynd i'r afael â phryderon rhieni

Addressing common parental concerns



"Sut alla i helpu â gwaith cartref fy mhlentyn os dydw i ddim yn siarad Cymraeg?"

Mae ysgolion Cymraeg yn darparu cyfarwyddiadau gwaith cartref yn y Gymraeg a'r Saesneg, felly byddwch yn gwybod yn union beth yw gofynion y gwaith. Bydd pob ysgol unigol yn fodlon cynnig cyngor ar addysg. Mae gwefan hwb.wales.gov.uk yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau ac adnoddau dysgu digidol.



"How can I help my child with homework if I don't speak Welsh?"

Welsh Medium schools provide homework instructions in Welsh and English so there will be no problem understanding what your child is being asked to do. The school themselves provide educational advice. hwb.wales.gov.uk HWB provides access to a range of digital learning tools and resources.



"Bydd y plant yn drysu a bydd safon eu Saesneg yn dioddef"

Ar gyfartaledd mae plant dwyieithog yn llwyddo i ennill canlyniadau uwch yn y Saesneg.

Wrth i'r plentyn esbonio eu gwaith cartref yn y Saesneg i'w rhieni, mae'n atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y plentyn.

"The children will be confused and their English will suffer"

On average, bilingual children achieve higher English language results.

It also reinforces the child's knowledge and understanding when they explain to parents in English what they are doing.

Oes 'na weithgareddau / digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ysgol?

Mae 'na sawl mudiad a chymdeithas yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau dwyieithog ar ôl ysgol. Mae'r manylion llawn i'w gweld ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Are there Welsh language activities / events outside of school?

There are a number of organisations and societies that arrange bilingual activities and events after school. Full details are available at the end of this booklet.

[Menter Iaith Fflint a Wrecsam](#)

[Urdd Fflint a Wrecsam](#)

[Mudiad Meithrin](#)

[Cymraeg i Blant](#)

[HWB Digwyddiadau Cymraeg / Welsh Language Events Hub](#)

www.agw.cymru





Oeddech chi'n gwybod? Did you know?

Mae tua thri chwarter
o bobl y byd yn siarad
mwy na dwy iaith

About three quarters of the
world's population speak
two or more languages.

SALUT

OLA



ALOHA



Ciao
你好



こんにちは



Beth yw'r manteision o fod yn ddwyieithog? What are the benefits of being bilingual?



Mantais addysgol...

- Mae plant ddwyieithog yn dueddol o gyflawni'n well yn y cwricwlwm ac yn ystod arholiadau.
- Mae pobl dwyieithog yn tueddu i ymdopi'n well o ran gweithio dan bwysau.
- Mae pobl dwyieithog yn ei gweld hi'n haws dysgu ieithoedd ychwanegol.

An educational edge....

- Bilingual children tend to achieve higher within the curriculum and tend to perform better in exams.
- Bilingual speakers tend to do better working under pressure.
- Bilingual people find learning additional languages easier.



Cyfeiriadau
Dr Colin Baker
Awdur cydnabyddedig
ar ddwyieithrwydd
References
Dr Colin Baker
Renowned author on bilingualism

Oeddech chi'n gwybod? Did you know?

Cymraeg yw un o'r ieithoedd hynaf yn Ewrop sy'n dal i gael ei siarad.

Welsh is one of the oldest living languages in Europe.



Ystyriwch eich gyrfa...

- mae siarad dwy iaith yn cynnig rhagor o gyfleoedd cyflogaeth i chi - bydd gennych chi sgil ychwanegol ar eich CV, sy'n rhoi 'gwerth' a mantais gystadleuol i chi yn nhermau busnes
- ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% o gyflog ychwanegol
- yn dilyn deddfwriaeth ddiweddar, mae angen rhagor o weithluoedd dwyieithog ar gyflogwyr

Consider your career...

- speaking two languages offers more employment opportunities - you will have an additional skill on your CV which in business terms is 'added value' and a competitive advantage
- bilingual people earn on average 11% more
- more employers need bilingual workforces in the future following recent legislation

Cryfhau eich ymennydd...

- mae siarad mwy nag un iaith yn helpu i leihau'r risg o ddementia yn nes ymlaen mewn bywyd
- mae pobl sy'n siarad dwy iaith yn fwy hyblyg, sensitif a chreadigol oherwydd bod ganddyn nhw mwy nag un gair ar gyfer gwrthrych neu gysyniad
- mae pobl ddwyieithog yn dadansoddi data ac yn aml-dasgio'n well, yn dueddol o berfformio'n well mewn profion IQ, ac yn meddu ar sgiliau gwybyddol gwell




Boost your brain...

- speaking more than one language helps to reduce the risk of dementia in later life
- people who speak two languages are more flexible, sensitive and creative given they have more than one word for that object and concept
- bilinguals are better at analysing data and multi-tasking, tend to do better in IQ tests and have higher cognitive skills

Y Sefyllfa Gymdeithasol

- mae siarad mwy nag un iaith yn cynnig dewis ehangach o weithgareddau cymdeithasol ac yn ehangu gorwelion.
- Mae'r Gymraeg yn magu perthynas agosach â hanes, treftadaeth a thraddodiadau Cymru. Rydych chi o fewn cyrraedd uniongyrchol o ddywediadau, idiomau, cerddoriaeth, barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg sy'n cael eu dathlu a'u parchu ledled y byd.
- Mae'r manteision diwylliannol hyn yn sicrhau hunaniaeth gadarn sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn a gwerth personol.



**Cyfathrebu,
Cyfathrebu,
Cyfathrebu.**

mae pobl ddwyieithog yn fw y sensitif wrth gyfathrebu ac yn fwy ymwybodol o anghenion gwrandawyr, yn enwedig wrth newid rhwng un iaith a'r llall.

The social situation

- speaking more than one language offers a wider range of social activities and expands horizons.
- it creates a closer relationship with the history, heritage and traditions of Wales. It provides direct access to Welsh sayings, idioms, music, poetry and literature which are celebrated and respected worldwide.
- these cultural benefits make for a strong identity which increase the sense of belonging and self worth.



**Communication,
Communication,
Communication.**

bilingual people are more sensitive when communicating and are more aware of the needs of listeners especially when switching from one language to another.



“

Mae yna dros 16,000
o siaradwyr Cymraeg
yn byw yn Wrecsam
ac mae dros 2000
o blant Wrecsam
yn ddwyieithog.

There are over 16,000
Welsh speakers in
Wrexham and over
2000 of our children
are bilingual.

”



Astudiaeth Achos 1 Huw Ap Dewi Coedpoeth

Yn wreiddiol rydw i o ardal Gymraeg iawn ym Mangor lle' roedd Cymraeg yn cael ei defnyddio a'i chlywed ym mhob man. Roedd hi'n bwysig iawn i mi fod fy mhlant, Alaw a Siôn yn cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg fel eu bod yn cael defnyddio eu Cymraeg tu allan i'r cartref. Rydw i hefyd wedi mynychu ysgol gynradd ac uwchradd Gymraeg fy hun, rwyf wedi gweld manteision yn fy mywyd gwaith oherwydd fy mod yn gallu siarad Cymraeg, ac rydw i eisiau i Alaw a Siôn gael yr un cyfleoedd a ges i.

Mae'r ddau yn mynychu ysgol gynradd Gymraeg ac mae Alaw yn mynd i ysgol uwchradd Gymraeg y flwyddyn nesaf.

Yn y cartref rydw i yn siarad Cymraeg gyda'r plant ond mae fy ngwraig yn tueddu i siarad Saesneg gyda nhw. Mae'n neis gweld fod y plant yn llifo'n hawdd rhwng Cymraeg a Saesneg heb feddwl.



Case Study 1 Huw Ap Dewi Coedpoeth

I'm originally from a very Welsh area in Bangor where Welsh is used and heard everywhere. It was very important to me that my children, Alaw and Siôn were educated through the medium of Welsh so that they could use their Welsh outside the home. Having also attended a Welsh-medium primary and secondary school myself, I've seen benefits in my working life because I can speak Welsh, and I want Alaw and Siôn to have the same opportunities I had.

They both attend a Welsh-medium primary school and Alaw is going to a Welsh medium secondary school next year.

At home I speak Welsh with the children but my wife tends to speak English with them. It's nice to see that the children flow easily between Welsh and English without thinking about it.



Astudiaeth Achos 2 Heidi Phoenix o Wreccsam

Nid ydw i na thad Dexter yn siarad Cymraeg, ond hyd yn oed cyn cael plant roeddwn yn gwybod y baswn yn anfon fy mhiant i ysgol cyfrwng Cymraeg.

Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iddynt fedru'r Gymraeg a'r Saesneg er mwyn eu rhagolygon swyddi yn y dyfodol, a hefyd oherwydd dylai pawb allu siarad iaith eu gwlad eu hunain. Mae gen i gwilydd braidd nad ydw i'n gallu siarad fy iaith fy hun, ond drwy Dexter dwi'n dechrau dysgu dipyn. Roedd 'na ychydig o bryder y byddai'r rhwystr iaith yn effeithio ar addysg Dexter ond mi wnaethon ni'r penderfyniad gorau erioed.

Mae o rŵan fwy neu lai yn rhugl yn 6 oed a dydi o erioed wedi cael unrhyw anawsterau. Mi fyddwn yn bendant yn anfon ei frawd bach i lawr yr un llwybr!



Case Study 2 Heidi Phoenix o Wrexham

Neither I nor Dexter's father are Welsh speakers, but even before having children, I knew that I would send my children to a Welsh medium school. I think it's so important for them to have the Welsh language as well as English for future job prospects and being able to speak your own language should be a given.

Something I find shameful is not being able to speak my own language, but through Dexter I am picking it up. There was worry that the language barrier would affect Dexter's education but it's been the best decision.

He is now practically fluent at 6 years old and has never had an issue. We will definitely be sending his younger brother down the same path!



Astudiaeth Achos 3 Natalie o Wrecsam

"Pan oedden ni'n edrych ar ysgolion i Murran roedden ni'n byw mewn ardal lle'r oedd 'na sawl ysgol.

"Roedd 'na ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg ac ysgolion ffydd. Dwi'n credu'n gryf mewn ymchwilio'n drylwyr i bob dim bob amser, a gan fod fy ngwaith i ar y pryd yn cynnwys gweithio gydag ysgolion mi nes i benderfynu ymweld â nhw i gyd.

"Does yr un o'r ddau ohono' ni'n gallu siarad Cymraeg, ond fel unrhyw rieni, roedden ni eisiau'r gorau i'n plentyn ni. Pan wnaethon ni drafod y syniad o anfon ein merch i ysgol cyfrwng Cymraeg efo'n teulu a'n ffrindiau roedd yr ymateb yn eithaf negyddol.

"Roedd pobl yn gofyn sut fydden ni'n ei helpu hi i wneud ei gwaith cartref ac yn meddwl tybed a fyddai hi dan anfantais gan mai uniaith Saesneg yw ei chartref hi.

"Yn ffodus, mae gen i griw o ffrindiau Cymraeg dwi'n eu nabod ers pan oeddwn yn f'arddegau a mi nes i ofyn iddyn nhw am gyngor. Roedden nhw i gyd wedi bod drwy'r ysgol fabanod, iau ac uwchradd gyda'i gilydd, ac mi ddywedon nhw fod y siaradwr Cymraeg a'r academydd gorau yn eu grŵp nhw yn dod o gartref di-Gymraeg....rhywbeth nad oeddwn i erioed wedi ei sylweddoli.

"Dim ond ychydig iawn o help mae Murran ei angen gyda'i gwaith cartref ac mae hi'n aml yn dweud y drefn wrtho' ni am ynganu geiriau'n anghywir! Mae ei gallu naturiol i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, heb fawr ddim help gan ei theulu – wedi cael ei nodi gan lawer o bobl, yn enwedig gan fod ganddi acen Gymraeg gref wrth siarad yr iaith.

"Mae Murran hefyd yn helpu ei brawd bach, sydd bedair blynedd yn iau na hi ac yn y dosbarth meithrin ar hyn o bryd. Mae o'n siarad Cymraeg efo Murran gyda'i eirfa gyfyngedig. Mae hi'n ei annog o ac yn darllen straeon Cymraeg iddo fo amser gwely. Mae'n fendigedig clywed y ddau ohonyn nhw'n siarad Cymraeg efo'i gilydd."



Case Study 3 Natalie from Wrexham

"At the time we were looking at schools for Murrán, we lived in an area surrounded by a number of schools.

"There were Welsh medium, English medium and faith schools. I've always been a stickler for research and - as my job at the time involved working with schools - I decided to visit them all.

"Neither of us can speak Welsh, but like all parents, we wanted the best for our child. When we discussed our idea for sending our daughter to a Welsh-medium school with our friends and family, we came up against negativity.

"People asked us how we would help her complete her homework and wondered whether she would be at a disadvantage, as her family home would be English-speaking only.

"Luckily, I had a group of Welsh friends who I'd met when I was a teenager who I asked for advice. They had all been to infant, junior and high school together and told me that the strongest Welsh speaker and academic in their friendship group was from an English-speaking household...something I had never realised.

"Murrán has only needed limited help with her homework and often tells us off for mispronouncing words! Her natural ability to speak, read and write in Welsh - with limited help from her family - has been noted by many people, especially as she has a strong accent when speaking Welsh.

"She's also helped her younger brother, who is four years her junior and currently in nursery class. He now speaks to Murrán in Welsh with his limited vocabulary. She really encourages him and reads him Welsh stories at bed time. It's lovely to hear them speak to each other in Welsh."

Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Welsh in Education Strategic Plan



Ym Mwrdeistref Sirol Wreccsam rydym yn ymroddedig i ddarparu addysg o ansawdd da a chydaddoldeb mynediad yn yr iaith genedlaethol a ddewisir. Rydym yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid i godi safonau llythrennedd a rhifedd ymhellach a threchu effaith tlodi ar lwyddiant addysgol.

Fel nodwyd yng Nghynllun y Gymraeg mewn Addysg Wreccsam, byddwn yn gweithio i:

- hyrwyddo dwyieithrwydd er mwyn sicrhau fod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei ddatblygu yn holl ysgolion Wreccsam a bod cyfleoedd gwell i ddefnyddio'r iaith tu allan i'r ysgolion;

- codi safonau llythrennedd, Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith;
- gweithio'n agos gyda'r awdurdodau cyfagos er mwyn darparu ar gyfer disgyblion sy'n newydd neu hwyrddyfodiaid i Addysg Cyfrwng Cymraeg; a
- gweithio mewn partneriaeth gyda'r consortiwm Gogledd Cymru, Coleg Cambria, Ysgol Maes Garmon, Prifysgol Glyndwr a sefydliadau eraill gan gynnwys Mudiad Meithrin, Menter iaith Fflint a Wreccsam, yr Urdd a Rhieni dros Addysg Gymraeg.

Cysylltiadau ar gyfer Derbyniadau
Ffon: 01978 298991
Ebost: admissions@wrexham.gov.uk

Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg Welsh in Education Strategic Plan



In Wrexham County Borough we are committed to providing good quality education and equality of access in the national language of choice.

We work closely with a range of partners and stakeholders to further raise standards in literacy and numeracy and to tackle the impact of poverty on education achievement.

As stated in our Welsh in Education Strategic plan, Wrexham will work to:

- promote bilingualism so that the use of Welsh is developed in all Wrexham schools and there are improved opportunities to use the language outside of schools;

- raise standards in literacy, Welsh first language and Welsh second language;
- work closely with neighbouring authorities to make provision for pupils who are new to, or are latecomers to Welsh medium education; and
- work in partnership with the North Wales consortium, Coleg Cambria, Ysgol Maes Garmon, Prifysgol Glyndwr and other organisations including Mudiad Meithrin, Menter Iaith Fflint a Wrecsam, the Urdd and Rhieni dros Addysg Gymraeg.

Contacts for admissions

Phone: 01978 298991

Email: admissions@wrexham.gov.uk

Dysgu gan y Byd – Gwella Addysg yn Wrexham Learning from the World - Improving Education in Wrexham



Wrexham's approach has been strengthened through an international project funded by Taith – Wales' international learning exchange programme.

The project, "Learning from New Brunswick and Québec, Canada, to Strengthen Welsh-medium Education in Wrexham," brought together Wrexham County Borough Council, Welsh-medium schools and immersion practitioners to learn from established bilingual education systems in Canada.

The learning is already influencing education in Wrexham. Approximately 900 primary learners, 900 secondary learners and more than 80 learners accessing immersion provision have been directly influenced by the project, with greater emphasis on vocabulary, oracy, language progression and effective immersion practice.

The learning continues to be shared across Wrexham so that international experience supports the continued improvement and expansion of Welsh-medium education.

Mae dull gweithredu Wrexham wedi'i gryfhau drwy brosiect rhyngwladol a ariennir gan Taith – rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol Cymru.

Daeth y prosiect, "Dysgu o New Brunswick a Québec, Canada, i Gryfhau Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Wrexham," â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham, ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ymarferwyr trochi at ei gilydd i ddysgu o systemau addysg ddwyieithog sefydledig yng Nghanada.

Mae'r gwersi a ddysgwyd eisoes yn dylanwadu ar addysg yn Wrexham. Mae tua 900 o ddysgwyr cynradd, 900 o ddysgwyr uwchradd a mwy nag 80 o ddysgwyr sy'n cael mynediad at ddarpariaeth trochi wedi elwa'n uniongyrchol ar y prosiect, gyda mwy o bwyslais ar eirfa, llafaredd, dilyniant iaith ac arferion trochi effeithiol.

Mae'r wybodaeth a gafwyd yn parhau i gael ei rhannu ledled Wrexham fel bod profiad rhyngwladol yn cefnogi gwelliant ac ehangiad parhaus addysg cyfrwng Cymraeg.



Llwybr i'r Gymraeg - Pathway to Welsh

**Grwpiau Cymraeg
i blant a Ti a Fi
Welsh language groups
for children and**

Rhieni gyda phlant o dan 2 oed - cyfle i blant a'u rhieni gymdeithasu a dysgu canu a chwarae yn y Gymraeg

Parents with children under 2 years - an opportunity to socialise, sing and play in Welsh

Cylch Meithrin

mudiad meithrin

2 i oed ysgol. Gofal chwarae ac addysg cyn ysgol ynghyd a gofal dydd.

2 years old to school age?. Play care and pre-school education as well as day care.

**Ysgol Gynradd
Primary School**

**Gofal Dydd
Day Care**

Plant 6 wythnos hyd at oed ysgol; 7.30am-6pm; Llun - Gwener

Children aged 6 weeks to school age; 7.30am-6pm; Monday-Friday

A+B=C



Mae symud o gylch meithrin i ysgol gynradd Gymraeg ac yna i ysgol uwchradd Gymraeg yn gamau naturiol a phwysig er mwyn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith.

Going from a nursery group or Cylch Meithrin to Welsh primary then secondary school is a natural and important step for pupils to continue to develop their language skills.

**Addysg Bellach
Further Education**

**Ysgol Uwchradd
Secondary School**

**Hyfforddiant a'r
byd gwaith
World of training
and work**

Ysgolion / Schools

Ysgol Bodhfyfryd	Wrecsam	01978 351168
Ysgol Bro Alun	Gwersyllt	01978 269580
Ysgol Bryn Tabor	Coedpoeth	01978 722180
Ysgol Cynddelw	Glyn Ceiriog	01691 718426
Ysgol I.D. Hooson	Rhosllanerchrugog	01978 832950
Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog	Llanarmon Dyffryn Ceiriog	01691 600278
Ysgol Min y Ddol	Cefn Mawr	01978 820903
Ysgol Plas Coch	Wrecsam	01978 311198
Ysgol Morgan Llwyd	Wrecsam	01978 315050
Ysgol Llan-Y-Pwll	Wrecsam	01978 594101



Hwb y Gymraeg yn y Gweithle



Welsh Language for Work Hub

Mae CAMU yn adnodd ardderchog ar gyfer Wrecsam a'r cyffiniau. Wedi'i leoli ar safle lâl, mae'n ganolfan gyda sawl ystafell amlwrpas a'r dechnoleg ddiweddaraf.

Mae Camu'n darparu cyrsiau Cymraeg sydd wedi'i llunio'n arbennig ar gyfer y gweithle mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol sydd eisiau gwella eu gwasanaeth dwyieithog. Yn ogystal â bod yn ganolfan sydd yn cynnal dosbarthiadau a gweithgareddau, mae CAMU hefyd yn gartref i athrawon ymgynghorol yr Iaith Gymraeg ar gyfer Cyngor bwrdeistref Sirol Wrecsam.

CAMU is a fantastic resource for Wrexham and surrounding areas. Located on the Yale site, it is a hub of multi-purpose rooms hosting the latest technology.

Camu provides a programme of language courses specifically tailored for the workplace in partnership with local employers who want to improve their bilingual customer service. As well as being a venue for holding classes and activities, CAMU is also home to Wrexham County Borough Council's Welsh language advisory teachers.



Camu

Ffordd Parc y Gelli
Wrecsam
LL12 7AB

0300 30 30 007
ymholiadau@cambria.ac.uk

Camu

Grove Park Road
Wrexham
LL12 7AB

0300 30 30 007
enquiries@cambria.ac.uk



Menter iaith Fflint a Wrecsam

Mae 22 Menter iaith ar draws Cymru yn gweithio i gynyddu a chefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned leol.

Mae pob Menter yn gweithio'n wahanol, yn ôl anghenion penodol eu hardaloedd gan drefnu digwyddiadau yn y gymuned, cynnal gweithgareddau i blant a theuluoedd, ac yn cynnig cymorth i fusnesau a gwasanaethau sydd eisiau defnyddio mwy o'r Gymraeg.

Gall eich Menter iaith leol hefyd eich cyfeirio at wasanaethau Cymraeg, dosbarthiadau dysgu Cymraeg, a gweithgareddau Cymraeg yn lleol.

Cysylltwch â ni i wybod mwy am waith Menter iaith Fflint a Wrecsam:
Contact us to find out more about the work of Menter iaith Fflint a Wrecsam:

01352 744 040

gwybod@menterffllintwrecsam.cymru

www.menterffllintwrecsam.cymru



Menter iaith Fflint a Wrecsam

There are 22 Mentrau iaith across Wales working to increase and support the use of Welsh within the local community.

Each Menter works differently, according to the specific needs of their areas, organising events in the community, holding activities for children and families, and offering support to businesses and services that want to use more Welsh.

Your local Menter iaith can also signpost you to Welsh language services, Welsh classes, and local Welsh activities.



Mudiad gwirfoddol sy'n arbenigo ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar yw Mudiad Meithrin. Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg

Ffôn: 01970 639639
post@meithrin.cymru

Mudiad Meithrin is a voluntary organisation and is the main provider of Welsh-medium early years care and education in the voluntary sector. Our aim is to give every young child in Wales the opportunity to benefit from early years care and education experiences through the medium of Welsh.

Tel: 01970 639639
post@meithrin.co.uk





Mae Cymraeg i Blant yn cynnig cyngor arbenigol, gwybodaeth a chefnogaeth i ddarpar rieni a rhieni newydd ar fuddion addysg Gymraeg a phwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'r plentyn bach.

Cymraeg for Kids provide specialist advice, information and support to prospective and new parents on the advantages of early bilingualism and the importance of introducing Welsh at an early stage to your child.

Cylch Ti a Fi

Cyfle i rieni neu warchodwyr gwrdd yn rheolaidd i fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu dros baned mewn awyrgylch Gymreig fydd yn helpu datblygiad plant o enedigaeth hyd at oed ysgol.

Parents and carers will have an opportunity to meet regularly to enjoy playing with their children and socialise over a cuppa in an informal Welsh atmosphere. It will help promote the development of children from birth to school age.

Am fwy o fanylion cysylltwch â

for more information contact

helen.jones@meithrin.cymru



Mae Cymraeg i Blant yn cynnig cyngor arbenigol, gwybodaeth a chefnogaeth i ddarpar rieni a rhieni newydd ar fuddion addysg Gymraeg a phwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'r plentyn bach.

Cymraeg for Kids provide specialist advice, information and support to prospective and new parents on the advantages of early bilingualism and the importance of introducing Welsh at an early stage to your child.

Cylch Meithrin

Nod y cylch meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

The aim of the cylch meithrin is to promote the education and development of children from two years old to school age through the medium of the Welsh language.

**Cysylltwch â'ch Cylch agosaf
neu swyddog cefnogi'r ardal**

**Contact your local Cylch or the
support officer for the area**

catherine.morris@meithrin.cymru



Urdd

Mae'r Urdd yn fudiad unigryw ac ers 1922, wedi cyflawni llawer wrth gynnig profiadau Chwaraeon, Celfyddydol, Preswyl, Dyngarol a Gwirfoddoli i fwy na 4 miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Heddiw mae gan yr Urdd 55,000 o aelodau. Mae hyn wedi eu galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at eu

cymunedau a chymdeithas, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd bydeang y parchir yng Nghymru.

Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.



Urdd

Founded in 1922 and with a current membership of 55,000, the Urdd is a unique organisation. As well as excellent residential experiences, the Urdd offers substantial opportunities in the areas of sport and arts as well as humanitarian projects and volunteering work. To date, over 4

million children and young people have engaged positively with the Urdd. The experience provided has helped nurture their self-confidence, broadened their horizons and has helped them contribute positively to society and their communities.

The Urdd has nurtured generations of young men and women to be positive embodiments of our unique language and culture, to be proud of their country while at the same time being outward-looking citizens of the world.

The Urdd's aim is to ensure that all the young people of Wales (between 8 and 25 years of age) are given the opportunity, through the medium of Welsh, to develop into rounded individuals, and enable them to play a constructive role in the community, by developing personal and social skills.

Manylion cyswllt lleol / Contact details

ffaw@urdd.org

<https://twitter.com/URDDFFAW>

<https://www.facebook.com/UrddFfaw/>